**COFNODION**

**CYFARFOD CYNTAF ("CYFARFOD CYNTAF")**

**GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR DECHNOLEG AC ARLOESEDD**

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**A GYNHALIWYD YN NHŶ HYWEL**

**DDYDD MAWRTH 23 MAI 2018 AM HANNER DYDD**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| David Rowlands AC ("DR") | UKIP |
| Mark Reckless AC ("MR") | Ceidwadwyr |
| Mohammad Asghar AC ("MA") | Ceidwadwyr |
| Catriona Reckless ("CR") | |

1. Cyflwynwyd yr agenda yn Atodiad A i Gyfarfod Cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Dechnoleg ac Arloesedd ("CPTIG").

2. Cadarnhaodd Aelodau'r Cynulliad a oedd yn bresennol eu bod yn dymuno bod yn aelodau o'r CPTIG.

3. Rhoddodd David Rowlands AC wybod yn y Cyfarfod Cyntaf bod yr Aelodau Cynulliad a ganlyn wedi rhoi gwybod iddo eu bod yn dymuno bod yn aelodau o'r CPTIG yn ogystal â'r rheini a oedd yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Lee Waters AC | Llafur |
| Hefin David AC | Llafur |

4. Cytunodd Aelodau'r Cynulliad a oedd yn bresennol mai pwrpas y CPTIG oedd hyrwyddo technoleg ac arloesedd er mwyn hybu economi Cymru a chreu swyddi medrus yng Nghymru.

5. Esboniodd DR pam ei fod yn credu bod angen CPTIG. Nododd DR fod economi dda, gref yn sail i bopeth, a bod angen i Gymru symud y tu hwnt i hen ddiwydiannau penodol a chanolbwyntio ar ddiwydiannau newydd sy'n cael eu gyrru gan dechnoleg ac arloesedd. Gallai'r CPTIG hefyd graffu mewn modd addysgedig ar Lywodraeth Cymru yn y cyd-destun hwn.

6. Nododd MA y byddai'r economi'n datblygu o ganlyniad i ddyfeisgarwch a datblygiad technegol parhaus. Rhoddodd MA esiampl Mr Honda, peiriannydd beiciau, a fenthycodd arian ar ôl yr Ail Ryfel Byd i gychwyn busnes yn gosod moduron ar feiciau. Rhoddodd MA enghraifft arall, o'r Ffindir, lle nodwyd bod angen symud y tu hwnt i'r diwydiant coedwigaeth

a phren. Daeth gwyddonwyr â dyfeiswyr at ei gilydd i wneud gwaith ar ffonau symudol, a sefydlwyd Nokia o ganlyniad.

7. Cytunwyd y gallai'r CPTIG edrych ar feysydd megis STEM, colegau technoleg, ac ymchwil a datblygu.

8. Nododd CR fod Llywodraeth y DU yn gwario tua £6 biliwn y flwyddyn ar ymchwil a datblygu, a nododd DR ei fod yn bwysig sicrhau bod Cymru yn cael ei chyfran deg o'r arian hwnnw.

9. Rhoddodd MA wybod i'r rheini a oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Cyntaf am ei ymweliad â safle lled-ddargludol yng Nghasnewydd, sy'n enghraifft o dechnoleg flaenllaw (mae'r safle'n cynhyrchu rhan sydd i'w gael ym mhob ffôn symudol), buddsoddiad mawr, gan gynnwys tua £200 miliwn o gyllid gan y llywodraeth, a chreu swyddi medrus. Cadarnhaodd MA y byddai'n ceisio trefnu i'r CPTIG ymweld â'r safle.

10. Rhoddodd DR wybod i'r rheini a oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Cyntaf am ei etholwr a oedd wedi arloesi gyda math newydd o bapur wedi'i orchuddio â phlastig y gellid ei ddefnyddio mewn nifer o ffyrdd trawsnewidiol, ond eto roedd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i fuddsoddiad ariannol. Byddai Banc Datblygu Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael 50 y cant o'r buddsoddiad o ffynhonnell arall. Nid oedd gan ffynonellau posibl eraill o gyllid ddiddordeb oherwydd nad oedd y busnes eisoes wedi'i sefydlu ac yn cyflogi staff.

11. Rhoddodd DR wybod i'r rheini a oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Cyntaf ei fod wedi gwneud rhywfaint o ymchwil ac wedi dod o hyd i 34 o gwmnïau yng Nghymru sydd ar flaen y gad o ran datblygiad technegol, er enghraifft, gweithio ar gyfer Apple, a phecynnu a chyflenwi robotig.

12. Nododd MA fod angen sicrhau bod cyllid buddsoddi ar gael i ddarparu'r dechnoleg a'r datblygiadau arloesol y mae ein "breuddwydwyr" yn eu dyfeisio. Tynnodd MA sylw at yr angen i chwilio am ddyfeisiadau, ac i ddatblygu'r hyn sydd gan Gymru eisoes.

13. Cytunwyd ei fod yn syniad da i'r CPTIG ymweld â phrosiect lled-ddargludol Casnewydd a safleoedd eraill, ac mai cwmnïau bach sydd angen y cymorth mwyaf.

14. Rhoddodd MR wybod i'r rheini a oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Cyntaf am y campws data gwyddonol sy'n cael ei sefydlu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gyda'r nod o greu cyfleoedd busnes newydd ar gyfer busnesau newydd. Cadarnhaodd MR y byddai'n ceisio trefnu i'r CPTIG ymweld â'r safle.

15. Etholwyd David Rowlands AC yn Gadeirydd y CPTIG yn y Cyfarfod Cyntaf.

16. Cytunwyd mai Catriona Reckless fyddai Ysgrifennydd y CPTIG.

17. Cytunwyd sefydlu'r CPTIG a phenodi ei swyddogion yn unol â rheolau'r Cynulliad.

# Atodiad A

**AGENDA**

**CYFARFOD CYNTAF**

**Y**

**GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR DECHNOLEG AC ARLOESEDD**

**AM HANNER DYDD**

**DYDD MAWRTH 22 MAI 2018 YN NHŶ HYWEL**

1. Croeso
2. Pwrpas y grŵp
3. Aelodau
4. Swyddogion
5. Unrhyw fater arall